# Cronfa Ôl-osod ar gyfer y Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

**Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol**

Cronfa Cymru gyfan yw Cronfa Ôl-osod ar gyfer y Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu'r Principality gyda'r nod o wella'r amgylchedd yng Nghymru.

Bydd y gronfa hon yn cefnogi sefydliadau ledled Cymru i wella eu heffeithlonrwydd ynni drwy ôl-osod adeiladau neu i brynu offer a fydd yn gwneud adeilad neu ofod mynediad cymunedol yn fwy ecogyfeillgar a/neu amgylcheddol effeithlon.

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n cynyddu hygyrchedd i'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu neu'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd nodwedd gwarchodedig 2010 Deddf Cydraddoldeb ac unigolion o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Byddem yn disgwyl gweld arolwg ynni sy'n dangos bod yr adeilad yn addas i'w uwchraddio ac yn debygol o weld buddion arbed ynni yn ogystal â chael effaith amgylcheddol gadarnhaol oherwydd gosod yr uwchraddiad hwn.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd gael arolwg effeithlonrwydd ynni wedi'i gwblhau gan sefydliad allanol ag enw da, sy'n dangos addasrwydd yr adeilad ar gyfer yr uwchraddiadau arfaethedig a'r potensial ar gyfer arbedion ynni.
Sylwer: nid yw Tystysgrif EPC yn arolwg effeithlonrwydd ynni.

Enghreifftiau o welliannau amgylcheddol y byddwn yn eu hystyried:
- paneli solar neu pympiau gwres
- inswleiddio
- goleuadau ynni effeithlon
- storio batri

## Grantiau ar gael

Grantiau mawr o hyd at £25,000 am flwyddyn.

Byddem yn disgwyl i geisiadau allu dangos sut y byddai'r prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd a lle bo hynny'n bosibl, unrhyw arbedion ynni blynyddol disgwyliedig a fyddai'n dod yn sgil y rhandaliad.

## Pwy all wneud cais?

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau gan sefydliadau sydd ag incwm o dros £500,000 oni bai bod modd gwneud achos am amgylchiadau untro eithriadol. E.e. Gwthiodd grant Cyfalaf incwm dros y lefel incwm am 1 flwyddyn yn unig. Byddem yn annog ac yn croesawu sgwrs cyn gwneud cais.
Ardal ddaearyddol a ariennir: Cymru a changhennau o'r Principality ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Grwpiau Cyfansoddol
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau Cyfyngedig drwy Warant
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol

# Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Drwy gydol mis Ionawr 2026 mae ymrwymiad i weithio gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality a Sefydliad Cymunedol Cymru i gynhyrchu marchnata a chyfathrebu sy'n dathlu'r Sefydliadau/Grwpiau a ddyfarnwyd.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael tuag at godi arian cyffredinol nac i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Gall grwpiau gyflwyno un cais am grant bach neu fawr yn unig.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.